

Polisi a Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

DRAFF

Cynnwys

1	Pwrpas y polisi a'r weithdrefn hon	3
2	Pwrpas asesiadau o'r effaith.....	3
3	Ein dyletswyddau ac ymrwymïadau i asesu effaith ar gyfrifoldeb.....	3
	Nodweddion gwarchoddedig	4
	Anfantais economaidd-gymdeithasol.....	5
	Y Gymraeg	6
	Asesiad effaith integredig	6
4	Pryd i gynnal EIA	6
	EIAs lefel uchel o'n swyddogaethau craidd	6
	EIAs ar gyfer polisiau, prosiectau a phenderfyniadau	7
5	Rolau a chyfrifoldebau	7
6	Sgrinio cychwynnol	7
7	Nodi effaith a mynd i'r afael â hi.....	8
8	Tystiolaeth ac ymgysylltu.....	9
9	Canlyniadau.....	10
10	Cyhoeddi.....	10
11	Monitro ac adolygu	10
	Atodiad A: Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	11
	Atodiad B: Cwestiynau ac atebion cyffredin.....	11
	Atodiad C: Geirfa	12
	Gwahaniaethu	12
	Aflonyddu.....	12
	Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.....	13
	Cyfiawnhad gwrthrychol	13
	Dyletswydd addasiadau rhesymol.....	14
	Erledigaeth	14

1 Pwrpas y polisi a'r weithdrefn hon

1.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein polisi a gweithdrefn ar gyfer cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA). Mae ganddi gysylltiad agos â'n

- [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2019-22](#)
- [Polisi Iaith Cymraeg](#)

1.2 Amcan y ddogfen hon yw sicrhau fod EIAs o'n polisïau yn cael eu cynnal yn gyson; mewn modd amserol; i safon uchel ac yn unol â'n dyletswyddau statudol ac ymrwymïadau gwirfoddol.

2 Pwrpas asesiadau o'r effaith

2.1 Mae asesiad effaith yn weithdrefn sy'n galluogi sefydliad i ystyried effeithiau ei benderfyniadau, ei bolisïau neu ei wasanaethau ar wahanol gymunedau, unigolion neu grwpiau. Ei nod yw:

- rhagweld neu nodi canlyniadau'r gwaith hwn ar unigolion neu grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth/gweithwyr;
- sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cau eu dileu neu eu lleihau i'r eithaf;
- gwneud y mwyaf o gyfleoedd i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol.

2.2 Gallai asesiad o'r effaith fod yn ofyniad statudol. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynrychioli arfer sefydliadol da. Mae'n helpu i ddatblygu gwell polisïau ac arferion ac yn cynorthwyo tryloywder ac atebolrwydd. Gall hefyd annog unigolion a chymunedau i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau - gan roi perchnogaeth iddynt dros benderfyniadau a thrawsnewid diwylliannau sefydliadol a gwneud penderfyniadau.

3 Ein dyletswyddau ac ymrwymïadau i asesu effaith ar gyfrifoldeb

3.1 Mae'r adran hon yn esbonio pa asesiadau effaith y mae'n rhaid inni ymgymryd â nhw yn ôl y gyfraith neu'n seiliedig ar ein hymrwymïadau gwirfoddol. Fodd bynnag, y rhesymeg ar gyfer cwblhau EIA yn y pen draw yw y gall wella gwasanaethau i bobl, gan wneud y gwasanaethau hyn yn well ac yn decach.

Nodweddion gwarchoddedig

3.2 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010') yn diffinio 9 nodwedd cydraddoldeb 'gwarchoddedig':

- oed
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred - gan gynnwys diffyg cred; a
- rhywedd
- cyfeiriadedd rhywiol

3.3 O dan Ddeddf 2019, mae'n anghyfreithlon [gwahaniaethu](#) yn erbyn unigolion sy'n meddu ar y nodweddion hynny neu eu trin yn annheg wrth ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau cyhoeddus. Mae hyn ar wahân i amgylchiadau penodol iawn lle gellir caniatáu gwahaniaethu ar sail '[cyfiawnhad gwrthrychol](#)'.

3.4 Mae'r ddeddf hefyd yn cyflwyno [dyletswydd i ddarparu addasiadau](#) i bobl ag anabledd.

3.5 Yn ychwanegol, mae deddf 2010 hefyd yn cyflwyno 'Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus,' a elwir hefyd yn 'ddyletswydd gyffredinol'. O dan y ddyletswydd, pan fyddwn yn ymgymryd â'n swyddogaethau, mae'n rhaid inni roi 'ystyriaeth ddyledus' i'r angen i:

- ddileu [gwahaniaethu](#) anghyfreithlon, [aflonyddu](#) ac [erledigaeth](#)
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau
- meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau.

3.6 Yn olaf, o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, mae'n rhaid inni:

- asesu effaith debygol unrhyw bolisiau ac arferion arfaethedig, neu unrhyw ddiwygiadau cynlluniedig neu arfaethedig o'r polisiau ac arferion hyn, ar ein gallu i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- monitro effaith y polisiau ac arferion hyn; a

- cyhoeddi adroddiadau ar asesiadau effaith

Anfantais economaidd-gymdeithasol

- 3.7 Yn ychwanegol i sefydlu'r 'dyletswydd gyffredinol' mewn perthynas â phobl sydd ag nodweddion gwarchoddedig, mae Deddf 2010 hefyd yn cyflwyno'r hyn a elwir yn 'ddyletswydd economaidd-gymdeithasol'. Pan fydd cyrff cyhoeddus allweddol yn gwneud penderfyniadau strategol, mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran y canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.
- 3.8 Nid yw'r Ddeddf yn diffinio anghydraddoldebau canlyniadau, anfantais economaidd-gymdeithasol na phenderfyniadau strategol. Mae [canllawiau statudol](#) Llywodraeth Cymru yn diffinio'r termau hyn fel y ganlyn:
- anghydraddoldebau canlyniadau: unrhyw wahaniaeth y mae modd ei fesur yn y canlyniad a gaiff y rheini sydd wedi wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol a'r canlyniad a gaiff gweddill y boblogaeth.
 - anfantais economaidd-gymdeithasol: byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol na phobl eraill yn yr un gymdeithas.
 - penderfyniadau strategol: penderfyniadau sy'n effeithio ar sut mae'r corff cyhoeddus yn cyflawni ei bwrpas statudol arfaethedig dros gyfnod sylweddol (nid penderfyniadau arferol 'o ddydd i ddydd).
- 3.9 Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn gysylltiedig â llawer o nodweddion, megis amddifadedd ardal (e.e. gwledigrwydd), cyfoeth neu incwm isel neu ddim o gwbl (e.e. digartrefedd; diweithdra), dyletswyddau gofalu ac eraill.
- 3.10 Gall gwahaniaethau yn y nodweddion hyn arwain at anghydraddoldebau canlyniadau mewn perthynas ag addysg, iechyd, gwaith, cyfiawnder a diogelwch personol, safonau byw a'r gallu i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau mewn cymunedau neu o ran cael mynediad at wasanaethau.
- 3.11 Yn OGCC, nid yw'n ofynnol inni gydymffurfio â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, ond rydym yn ymroddedig i weithio yn ei hysbryd. Mae'r ymrwymiad hon yn cynnwys asesu effaith ein gwaith ar bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

3.12 O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, mae gennym ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg.

3.13 Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau i asesu effaith gadarnhaol a negyddol polisiâu newydd neu ddiwygiedig ar:

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3.14 Mae'n rhaid inni hefyd ystyried sut y dylid llunio polisi newydd, neu adolygiad neu ddiwygiad o bolisi presennol er mwyn lleihau'r effaith negyddol a chynyddu'r effaith gadarnhaol.

Asesiad effaith integredig

3.15 Mae integreiddio asesiadau effaith yn arfer da – mae hynny'n golygu, edrych o fewn un asesiad ar wahanol agweddau o gydraddoldeb. Gall integreiddio asesiadau effaith annog meddwl mwy cydgysylltiedig ac osgoi dyblygu amser ac ymdrech. Mae ein gweithdrefn EIA yn ystyried ar yr un pryd yr effeithiau ar nodweddion gwarchoddedig, nodweddion economaidd-gymdeithasol a'r iaith Gymraeg.

4 Pryd i gynnal EIA

EIAs lefel uchel o'n swyddogaethau craidd

- 4.1 Byddwn yn cynnal EIAs lefel uchel o'n swyddogaethau craidd: ymdrin â chwynion, gwella, gwasanaethau corfforaethol, rheolaeth ariannol, llywodraethu gwybodaeth a TG.
- 4.2 Bydd yr EIAs lefel uchel hyn yn nodi meysydd cyffredinol o'n gwaith sy'n cael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gydraddoldeb. Byddant hefyd yn nodi rhai camau cyffredinol yr ydym eisoes yn eu cymryd, neu y gallem eu cymryd yn y dyfodol, i wella effaith gadarnhaol a lliniaru'r rhai negyddol.

4.3 Yn ogystal â'n swyddogaethau craidd, bydd y weithdrefn EIA hon yn cael ei chymhwyso i'n:

- polisiau, gweithdrefnau a strategaethau ('polisiau') – newydd neu ddiwygiedig
- prosiectau mawr – megis Ymchwiliadau Ar ei Liwt ei Hun, ymchwil boddhad cwsmeriaid neu ddigwyddiadau allgymorth o raddfa fawr
- ein prif benderfyniadau – penderfyniadau sy'n effeithio'n sylweddol ar sut rydym yn gweithredu (er enghraifft, penderfyniad dros dro i addasu argaeledd ein gwasanaeth).

5 Rolau a chyfrifoldebau

- 5.1 Y Tîm Rheoli sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am lywodraethu a chyfeiriad strategol OGCC. Mae'r Tîm Rheoli yn sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithredu yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, statudol a chanllawiau arfer da. Rhaid i EIAs gael eu cymeradwyo gan y Tîm Rheoli (polisiau) neu aelod o'r Tîm Rheoli (prosiectau neu benderfyniadau).
- 5.2 Mae'r Pennaeth EDI yn gyfrifol am sicrhau bod y Polisi a Gweithdrefn EIA yn cael eu gweithredu'n gywir ac yn gyson. Maent yn cynorthwyo aelodau eraill o staff i gwblhau EIAs ac yn cadw cofnodion o'r holl EIAs a gwblhawyd. Mae'r Pennaeth EDI yn gyfrifol am ymgymryd â'r EIAs lefel uchel o'n swyddogaethau craidd, a'u hadolygu yn barhaus.
- 5.3 Y staff sy'n gyfrifol am bolisiau, prosiectau a phenderfyniadau unigol sydd yn cwblhau EIAs o'r polisiau, prosiectau a phenderfyniadau hynny, yn ôl yr angen.
- 5.4 Rhaid i bob aelod o staff fod yn ymwybodol o'n dyletswyddau a'n hymrwymyiadau cydraddoldeb fel yr eglurir yn y ddogfen hon a pholisiau cydraddoldeb cysylltiedig eraill.

6 Sgrinio cychwynnol

- 6.1 Nid oes rhaid i bob polisi, penderfyniad neu brosiect fod yn destun EIA llawn. Mae'r gofyniad cyfreithiol i asesu effaith ar nodweddion gwarchoddedig yn caniatáu inni ganolbwyntio ar y materion hynny lle mae'r materion cydraddoldeb mwyaf difrifol o bosibl yn codi ('perthnasedd' a 'chymesuredd').

Polisi a Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- 6.2 Mae hyn yn golygu ein bod yn cael 'sgrinio' polisiâu sy'n debygol o gael y cyn lleied ag sy'n bosibl o effaith ar gydraddoldeb ac felly nid oes angen asesiad llawn arnynt.
- 6.3 Yn OGCC, byddwn yn ymgymryd ag asesiadau llawn o'r effaith o'n swyddogaethau craidd i'n helpu i nodi meysydd o'n gwaith sy'n cael effaith ar gydraddoldeb. Bydd yr EIAs hynny yn gweithredu fel model a chyfeirbwynt ar gyfer asesiadau o bolisiâu, prosiectau a phenderfyniadau mwy penodol.
- 6.4 Byddwn yn cynnal asesiad llawn o'r effaith o bolisi, prosiect neu benderfyniad os yw'n:
- ymwneud â'n swyddogaethau neu feysydd gwaith o fewn y swyddogaethau hynny y mae EIA wedi nodi effeithiau cydraddoldeb ar eu cyfer
 - ymwneud â'n Hamcanion Cydraddoldeb
 - mae gennym resymau i gredu y gallai arwain at wahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp o bobl

7 Nodi effaith a mynd i'r afael â hi

- 7.1 Gall effeithiau a nodir drwy ein gweithdrefn EIA fod yn negyddol neu'n gadarnhaol.
- 7.2 Gellir nodi effeithiau negyddol trwy ofyn 'A oes risg y gallai'r swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad:
- wahaniaethu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn erbyn unrhyw grŵp o bobl?
 - creu rhwystrau i bobl â rhai nodweddion rhag cael mynediad at ein gwaith neu gymryd rhan ynddo?
 - methu â diwallu anghenion rhai grwpiau o bobl?
 - lleihau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu olygu y byddem yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
- 7.3 Gellir nodi effeithiau cadarnhaol trwy ofyn 'A oes potensial y gallai'r swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad:
- helpu i leihau'r risg o wahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp o bobl?
 - dileu neu leihau anfantais a brofir gan rai pobl?
 - annog gwahanol grwpiau o bobl i gael mynediad at ein gwaith neu gymryd rhan ynddo?

Polisi a Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- helpu i fynd i'r afael â rhagfarn?
- helpu i hyrwyddo dealltwriaeth rhwng gwahanol grwpiau?
- gwella cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

- 7.4 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n diffinio ein dyletswyddau ac ymrwymadau cydraddoldeb (gweler adran 3 uchod) yn nodi'r gwahanol ofynion ar gyfer mesur effaith ar nodweddion gwarchoddedig, anfantais economaidd-gymdeithasol a'r Gymraeg. Er enghraifft, mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail eu nodweddion gwarchoddedig, ond nid ar sail eu statws economaidd-gymdeithasol.
- 7.5 Mae ein gweithdrefn EIA integredig yn mynd y tu hwnt i'n dyletswyddau cyfreithlon, ac yn ystyried effeithiau negyddol a chadarnhaol ar nodweddion gwarchoddedig, nodweddion economaidd-gymdeithasol, a'r Gymraeg.

8 Tystiolaeth ac ymgysylltu

- 8.1 Rhaid i'r weithdrefn EIA fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Nid yw'n ddigon dibynnu ar dybiaethau am effeithiau posibl – rhaid i chi ystyried ystod eang o ddata a fydd yn llywio'r asesiad.
- 8.2 Gall hyn gynnwys data presennol megis:
- data meintiol (e.e., proffil cydraddoldeb y bobl yr effeithir arnynt; niferoedd y bobl yr effeithir arnynt; gwybodaeth ddemograffig; ystadegau cyflogaeth; arolygon boddhad)
 - data ansoddol (e.e., astudiaethau achos, adroddiadau, adborth arolwg)
- 8.3 Wrth wraidd cydymffurfio â [Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus](#) y mae'r egwyddor o ymgysylltu â grwpiau a allai gael eu heffeithio. Lle mae polisi, prosiect neu benderfyniad yn berthnasol i grŵp rhanddeiliaid penodol, rhaid i ni wneud ein gorau i ymgynghori â chynrychiolydd o'r grŵp hwn neu ei gynnwys cyn gynted â phosibl.
- 8.4 Os nad yw'r dystiolaeth sydd ar gael i gynnal EIA yn ddigon neu os nad yw'n ddibynadwy, efallai y bydd angen i ni oedi'r weithdrefn a chwilio am y dystiolaeth sydd ei hangen.
- 8.5 Gall EIAs blaenorol fod o gymorth fel cyfeirbwynt. Caiff pob EIAs eu cadw ar ein mewnrwyd, a byddwn hefyd yn cyhoeddi EIAs llawn ar ein gwefan (gweler isod).

- 8.6 **Rhaid** cofnodi pob tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gynnal asesiad. Mae'r cofnod yn hanfodol i ddangos ein hystyriaeth ddyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, dyletswydd economaidd-gymdeithasol a safonau polisi'r Gymraeg.

9 Canlyniadau

- 9.1 Mae cam olaf y weithdrefn yn ymwneud â recordio canlyniadau. Mae tri phrif ganlyniad posibl:
- Bwrw ymlaen - dim newid
 - Bwrw ymlaen - angen camau gweithredu
 - Peidiwch â bwrw ymlaen
- 9.2 Mae'n **anghyfreithlon** bwrw ymlaen â pholisi, benderfyniad neu brosiect a fyddai'n rhagfarnu yn erbyn pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig (gan gynnwys methu â darparu addasiadau rhesymol). Mae hyn ar wahân i amgylchiadau penodol iawn lle gellir caniatáu gwahaniaethu ar sail ['cyfiawnhad gwrthrychol'](#).
- 9.3 Os bydd angen inni wneud newidiadau i bolisi, prosiect neu benderfyniad, rhaid i'r adroddiad canlyniadau ddynodi cynllun i ymgymryd â'r newidiadau hyn a phennu cyfrifoldebau am unrhyw gamau gweithredu.
- 9.4 Rhaid i EIA sydd wedi'i gwblhau gael eu cymeradwyo gan y Tîm Rheoli (ar gyfer polisïau) neu gan aelod o'r Tîm Rheoli (ar gyfer prosiectau a phenderfyniadau).

10 Cyhoeddi

- 10.1 Rhaid inni gyhoeddi canlyniadau asesiadau o effaith ar nodweddion gwarchoddedig lle bernir bod yr effaith neu'r effaith debygol yn 'sylweddol'.
- 10.2 Er mwyn symlrwydd, byddwn yn cyhoeddi pob asesiad llawn o'r effaith ar ein gwefan. Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodebau o'r asesiadau hyn yn ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol.

11 Monitro ac adolygu

- 11.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd ac yn cael ei gyhoeddi yn fewnol ac yn allanol.

Polisi a Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Atodiad A: Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae ein ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael yma [DOLEN]

Atodiad B: Cwestiynau ac atebion cyffredin

Cwestiwn: Pryd y mae angen imi gwblhau EIA?

Ateb: Rhaid ichi gwblhau EIA bob tro y byddwch yn datblygu polisi newydd, neu y byddwch yn adolygu un sy'n bodoli eisoes. Rhaid ichi hefyd gwblhau EIA os ydych yn cynllunio prosiect mawr neu os ydych yn gyfrifol am benderfyniad mawr sy'n newid y ffordd yr ydym yn gweithredu'n sylweddol. Fel sefydliad, rydym hefyd yn cynnal EIAs llawn lefel uchel o'n swyddogaethau craidd.

Cwestiwn: A oes rhaid i mi gynnal EIA llawn bob amser?

Ateb: Nac oes. Weithiau bydd cynnal sgrinio cychwynnol o bolisi, prosiect neu benderfyniad yn unig yn ddigon. Rhaid i chi fynd ymlaen i'r asesiad effaith llawn, os yw eich polisi, prosiect neu benderfyniad:

- yn ymwneud â'n swyddogaethau, neu feysydd gwaith o fewn y swyddogaethau hynny, a allai gael effaith ar gydraddoldeb. Gallwch gael gwybod am yr effeithiau hynny yn yr EIAs lefel uchel o'n swyddogaethau craidd [DOLEN]
- yn ymwneud â'n Hamcanion Cydraddoldeb [DOLEN]
- mae gennych resymau i gredu y gallai arwain at wahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp o bobl. I benderfynu a oes risg o wahaniaethu, bydd yn rhaid i chi adolygu rhywfaint o dystiolaeth.

Cwestiwn: Beth yw pwrpas EIAs lefel uchel o'n swyddogaethau?

Ateb: Rydym yn cynnal yr EIAs lefel uchel hyn i nodi meysydd cyffredinol o'n gwaith sy'n cael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gydraddoldeb. Unwaith y byddwn wedi nodi'r meysydd hyn, gallwn wneud yn siŵr bod ein holl bolisiau, prosiectau neu benderfyniadau sy'n ymwneud â'r meysydd hynny yn ystyried yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol posibl a nodwyd a chymhwyso'r mesurau priodol i wella neu liniaru'r effeithiau hynny. Gan fod yr EIAs lefel uchel eisoes yn casglu ystod eang o dystiolaeth berthnasol, yr oll sydd angen i asesiadau manylach o'n polisiau, prosiectau a phenderfyniadau eu rhestru yw unrhyw dystiolaeth ychwanegol a ystyriwyd gennym yn unig.

Cwestiwn: Pa dystiolaeth sydd ei hangen arnaf i gynnal EIA?

Ateb: Yn gyntaf, edrychwch ar EIA lefel uchel ein swyddogaethau perthnasol [\[LINK\]](#). Maent yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth berthnasol. Edrychwch hefyd at EIAs blaenorol o'r un polisiâu, prosiectau a phenderfyniadau. Caiff ein holl EIAs eu storio ar ein Mewnrwyd. Byddwch hefyd yn gallu dod o hyd i EIAs perthnasol sydd wedi'u cwblhau gan sefydliadau eraill. Y tu hwnt i hynny, ystyriwch dystiolaeth feintiol ac ansoddol arall a allai fod yn berthnasol i'ch polisi, prosiect neu benderfyniad penodol. Meddyliwch hefyd pwy sydd angen i chi ymgysylltu â nhw i gael adborth ar eich polisi, prosiect neu benderfyniad.

Cwestiwn: Beth ddylwn i ei wneud ag EIA wedi'i gwblhau?

Ateb: Rhaid i EIA sydd wedi'i gwblhau gael eu cymeradwyo gan y Tîm Rheoli (ar gyfer polisiâu) neu gan aelod o'r Tîm Rheoli (prosiectau neu benderfyniadau). Anfonwch EIAs sydd wedi'u cymeradwyo at y Pennaeth EDI, a fydd yn eu cadw ar ein Mewnrwyd ac yn eu cyhoeddi ar y wefan os oes angen.

Atodiad C: Geirfa

Gwahaniaethu

Mae gwahaniaethu yn golygu triniaeth lai ffafriol oherwydd nodweddion gwarchoddedig rhywun. Mae'n cynnwys sefyllfa lle tybir yn anghywir bod gan rywun nodwedd benodol a phan fo rhywun yn gysylltiedig â pherson â nodweddion gwarchoddedig. Gall gwahaniaethu fod yn uniongyrchol (pan gaiff rhywun eu trin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchoddedig) neu'n anuniongyrchol (pan fydd swyddogaeth, polisi, prosiect neu benderfyniad yn cael ei gymhwyso'n gyfartal i bawb ond yn cael effaith negyddol anghymesur ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig).

Aflonyddu

Mae aflonyddu yn golygu ymddygiad nas dymunir sy'n gysylltiedig â nodwedd warchoddedig, neu o natur rywiol, sydd â'r diben, neu'r effaith, o darfu ar urddas person neu greu amgylchedd bygythiol, anghyfeillgar, diraddiol, bychanol neu dramgwyddus ar eu cyfer.

Polisi a Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a elwir hefyd yn 'ddyletswydd gyffredinol' yn nodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus roi 'sylw dyledus' i'r anghenion canlynol pan fyddant yn ymgymryd â'u swyddogaethau:

- dileu [gwahaniaethu](#), [aflonyddu](#) ac [erledigaeth](#) anghyfreithlon
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau
- meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau.

Cyfiawnhad gwrthrychol

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn dweud y gellir cyfiawnhau gwahaniaethu anuniongyrchol os oes rheswm digon da dros drin rhywun yn anffafriol. Mewn amgylchiadau penodol, mae hefyd yn caniatáu ar gyfer gwahaniaethu uniongyrchol ar sail oed. 'Cyfiawnhad gwrthrychol' yw enw amddiffyniad ar y seiliau hyn.

Gall cyfiawnhad gwrthrychol fod yn berthnasol i'r amgylchiadau canlynol:

- gofyniad galwedigaethol: weithiau, mae bod â nodwedd warchoddedig yn ofyniad galwedigaethol ac mae angen cadw rhai swyddi ar gyfer pobl sydd â'r nodwedd warchoddedig honno
- gweithredu cadarnhaol: caniateir i gyflogwyr gymryd camau i annog pobl o grwpiau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig sydd ag anghenion gwahanol; â hanes blaenorol o anfantais; neu sydd â chofnod o gyfranogiad isel
- gwahaniaethu uniongyrchol ar sail oed: gellir caniatáu trin rhai grwpiau oedran yn llai ffafriol mewn rhai amgylchiadau penodol. Er enghraifft, gall meddyg teulu gynnig pigiadau ffliw i bobl dros 65 oed yn unig. Dim ond yng nghyd-destun oedran yr achwynydd y gellir cyfiawnhau gwahaniaethu uniongyrchol, ac nid mewn perthynas ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig eraill.
- gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd: mewn amgylchiadau penodol iawn, nid yw'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail rhywbeth sy'n gysylltiedig â'i anabledd. Mae hyn yn berthnasol dim ond pan fydd person sy'n gwahaniaethu yn erbyn rhywun arall yn gallu dangos nad oeddent yn gwybod, neu nad oedd disgwyl yn rhesymol iddynt fod wedi gwybod, fod y person hwnnw yn anabl.

I ddibynnu ar yr amddiffyniad cyfiawnhad gwrthrychol, rhaid i'r cyflogwr, y darparwr gwasanaeth neu'r sefydliad arall ddangos bod ei bolisi neu ei reol ar sail oed wedi'i sefydlu am reswm da - ei fod yn 'ddull cymesur o gyflawni nod cyfreithlon'. Yn ôl canllawiau EHRC, i brofi cyfiawnhad gwrthrychol:

Polisi a Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- rhaid i'r nod fod yn ystyriaeth wirioneddol, wrthrychol ac ni ddylai'r nod ynddo'i hun fod yn wahaniaethol (er enghraifft, sicrhau iechyd a diogelwch pobl eraill)
- ni ddylai unrhyw fesurau eraill fod ar gael a fyddai'n bodloni'r nod heb ormod o anhawster ac a fyddai'n osgoi effaith wahaniaethol o'r fath: os gellid bod wedi cymryd camau cymesur eraill, mae'n annhebygol y bydd rheswm da dros y polisi neu'r rheol ar sail oed
- nid yw dadlau ar sail cost yn unig yn ddigon - os mai'r unig nod yw lleihau costau gan ei bod yn rhatach gwahaniaethu, ni fydd hyn yn gyfreithlon.

Dyletswydd addasiadau rhesymol

Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol os yw'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein swyddogaethau yn rhoi person anabl dan anfantais sylweddol i rywun nad yw'n anabl. Mewn amgylchiadau o'r fath mae gennym ddyletswydd i gynnig addasiadau rhesymol. Gall addasiadau rhesymol gynnwys 'darpariaethau, meini prawf ac arferion', 'nodweddion ffisegol' a 'darparu cymhorthion ategol'. Mewn geiriau eraill, maent yn cynnwys:

- newid y ffordd y caiff pethau eu gwneud
- gwneud newidiadau i oresgyn rhwystrau a grëwyd gan nodweddion ffisegol y swyddfa
- darparu offer ychwanegol neu sicrhau cymorth.

Mae'r ddyletswydd i gynnig addasiadau rhesymol yn 'ddyletswydd ddisgwyllgar'. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid inni feddwl ymlaen llaw ynghylch yr hyn y gallai yn rhesymol fod angen ar bobl sydd ag ystod o anableddau.

Erledigaeth

Mae erledigaeth yn golygu trin person yn wael oherwydd ei fod wedi gwneud neu gefnogi cwyn am wahaniaethu neu aflonyddu neu am y tybir eu bod wedi gwneud un o'r pethau hyn.